**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

**21 Chwefror 2025**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Menna Trenholme (Cyngor Gwynedd) ac Edgar Owen (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Prif Swyddogion:** Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) a Jonathan Cawley (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**Swyddogion Statudol**
Dewi Morgan (Prif Swyddog Cyllid) ac Iwan Evans (Swyddog Monitro).

**Swyddogion eraill yn bresennol**
Alwen Williams (Prif Weithredwr Dros Dro y CBC), Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro), Dave Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig), Jack Latkovic (Swyddog Democratiaeth Cydbwyllgor Corfforedig), Iain Taylor (AMION Consulting) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**Ymddiheuriadau:**
Cyng. Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) gyda Cyng. Menna Trenholme yn dirprwyo.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd** | 21 Chwefror 2025 |

**PWNC**

Eitem 5: PARTH BUDDSODDI SIR Y FFLINT A WRECSAM – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD A CHYMERADWYAETH PORTH

**PENDERFYNIAD:**

**Cymeradwyo'r dyraniadau ariannol a gynigir yn Atodiad 1.**

**Dirprwyo Prif Weithredwr Dros Dro y CBC a’r Swyddog S151, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y CBC, gyda Chynghorau Wrecsam a Sir y Fflint i gytuno ar unrhyw fan addasiadau i'r dyraniadau sy'n codi o baratoi cyflwyniad Porth 4. Er mwyn osgoi amheuaeth, "man addasiadau" yw'r rheini lle nad oes newid o fwy na 10% i gyllid unrhyw bennawd a gytunwyd arno, ac nid ydynt yn cynnwys symudiad rhwng cyllid cyfalaf a refeniw.**

**Nodi’r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a gofyn bod y Pyrth sy'n weddill (4 a 5) yn cael eu cyflwyno am gymeradwyaeth, ynghyd â phenderfyniad terfynol ar gynnig y Parth Buddsoddi mewn cyfarfod yn y dyfodol, unwaith mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) a'r Pyrth wedi'u cytuno gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.**

**CANLYNIAD Y PLEIDLEISIAU**

| | |
|---|---|
| O blaid | 6 |
| Atal | 0 |
| Yn Erbyn | 0 |

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol nac unrhyw fater protocol.

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD**
**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

**(Rheol 20(3) Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig (Cyffredinol)(Rhif 2) (Cymru) 2021)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd** | 21 Chwefror 2025 |

---

**PWNC**

Eitem 6: TROSGLWYDDO'R CYNLLUN TWF I'R CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG

---

**PENDERFYNIAD:**

**Derbyn y diweddariad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i baratoi ar gyfer trosglwyddiad arfaethedig y Cynllun Twf, ei gyllid a'r PMO i'r CBC ar 1 Ebrill, 2025.**

**Cyflwyno adroddiad penderfynu pellach i gyfarfod nesaf y CBC ar 21 Mawrth, 2025 i ddarparu ei benderfyniad ffurfiol i dderbyn y trosglwyddiad ac ymrwymo i'r cytundeb Cyflawni ac Ariannu ar gyfer trosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC.**

---

**CANLYNIAD Y PLEIDLEISIAU**

| | |
|---|---|
| O blaid | 6 |
| Atal | 0 |
| Yn Erbyn | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol nac unrhyw fater protocol.